OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 944 (Cy. 187)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A489 (Glantwymyn, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Awst 2018* |
| *Yn dod i rym* | *16 Awst 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470 a'r darnau perthnasol o Gefnffordd yr A489, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a), 84(1)(c), (1A) a (2), a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A489 (Glantwymyn, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2018 a daw i rym ar 16 Awst 2018.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

---

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(2)** Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" neu "y cefnffyrdd" ("*the trunk road(s)*") yw'r darnau perthnasol o Gefnffyrdd yr A470 a'r A489 Caersŵs i Fachynlleth a Chefnffordd yr A470 Glantwymyn i Fallwyd, Glantwymyn yn Sir Powys; ac

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**5.** Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

**Dirymu**

**6.** Mae Gorchymyn y Gefnffordd (yr A470/yr A489) (Glantwymyn, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 1983(3) drwy hyn wedi ei ddirymu.

(3) O.S. 1983/1457.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Awst 2018

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### Terfyn Cyflymder 40 mya

**1.** Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganolbwynt cylchfan yr A470/yr A489 yng Nglantwymyn hyd at bwynt 133 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gylchfan honno.

**2.** Y darn o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o ganolbwynt cylchfan yr A470/yr A489 yng Nglantwymyn hyd at bwynt 476 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gylchfan honno.

**3.** Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganolbwynt cylchfan yr A470/yr A489 yng Nglantwymyn hyd at bwynt 537 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y gylchfan honno.

## ATODLEN 2

### Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 62 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt cylchfan yr A470/yr A489 yng Nglantwymyn hyd at bwynt 316 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gylchfan honno.